

CYFOETHOGI IAITH TRWY DDYSGU AR Y COF

PIE CORBETT

Un o'r enwau cyfarwydd ym myd addysg erbyn hyn yw Pie Corbett- yn ddarlithydd, yn gyn brifathro, yn arolygwr ac fel un fu'n gyfrifol yn ôl ei eiriau ef ei hun 'am y rhannau da yn y Fframwaith Llythrennedd yn Lloegr,' mae'n addysgwr nodedig. Mae'n awdur sawl llyfr sy'n cynnig arweiniad i athrawon ar sut i gyfoethogi iaith plant a'i lyfrau 'O ddweud stori i greu stori' yng Nghyfnod Allweddol 1 a 2 ym mhob ysgol yng Ngwynedd a Môn.

Tarddodd y llyfrau hyn o waith ymchwil wnaed yn ysgolion De Lloegr yn 2001 i weld faint o straeon oedd plant yn gallu'u hailadrodd ar lafar. Testun syndod oedd sylweddoli pa mor brin oedd yr achosion hynny lle 'roedd plant yn gallu ailadrodd unrhyw stori ar y cof. Os oedd 'na blentyn yn cofio, yna'n ddi-eithriad 'roedd Pie Corbett yn clywed llais oedolyn wrth i'r plentyn ailadrodd y stori'n ôl iddo.

Wrth esgeuluso'r grefft o gael plentyn i ddysgu testun ar y cof, mae sawl cyfle euraid i gyfoethogi iaith yn cael ei golli. Crefft sydd angen ei meithrin yw cael plentyn i ddysgu rhywbeth ar lafar, a chred didwyll Pie Corbett yw fod angen arfau fel tôn llais amrywiol, rhythm, ystum a symudiadau i ysgogi ac i atgyfnerthu'r sgil bwysig yma.

Yn y broses o ddysgu stori a'i hailadrodd hi, mae sawl elfen o gyfoethogi iaith yn cael ei chwmpasu

o dan yr un ambarel. Wrth ddwyn i gof mae'r plant yn mewnloli iaith, yn mewnloli'r cystrawennau a'r patrymau iaith cywir. Mae geirfa, ansoddeiriau, berfau, idiomau a'r dywediadau cyfoethog sy'n cael eu dysgu ar lafar yn treiddio drwodd i'r cof tymor hir yn barod i'w defnyddio eto mewn cyd-destun newydd yn y dyfodol. Ynghyd â hyn wrth gwrs, o fewnoli a chofio sawl stori mae gan blant fanc o 'gynlluniau' parod wrth fynd ati i greu straeon eu hunain. Mae ganddyn nhw gymeriadau a lleoliadau, 'ieithwedd stori' a set o eiriau i yrru'r stori yn ei blaen yn ogystal â sawl diweddglo gwahanol.

Cyn y broses o ysgrifennu, felly, mae plant wedi dysgu sawl fformat stori ac mae rhain ar gof a chadw ganddynt i'w hailadrodd ar lafar.

Yn yr enghreifftiau o'r gwaith ysgrifenedig (drafft gyntaf) a welir, mae'r plant wedi mynd ati i aildefnyddio'r plot a thema waelodol stori Carlo'r Ci (Safle Llythrennedd Cynnal) mewn cyd-destun newydd. Mae symlrwydd y straeon yma'n fanteisiol gan fod cynllun a strwythur y stori i'w gweld yn glir.

Yn yr enghraifft gyntaf, gwelwn y plot sylfaenol lle mae problem yn codi, ysbryd sydd yn ofnus yn yr achos yma, ac yna mae datrysiaid llwyddiannus i'r broblem. Dengys y gwaith ysgrifenedig fod yr

holl waith ailadrodd ar lafar wedi dwyn ffrwyth e.e. yr ymadroddion a dywediadau wedi'u hychwanegu'n bwrpasol ac i greu effaith. Mae amrywio dechrau brawddegau yn digwydd yn naturiol ac mae yna drefn i'r stori heb i'r cynllun fynd yn rhy gymhleth.

Yr un plot sylfaenol sy'n perthyn i stori Carlo'r Ci a welir yn yr ail sribed stori, ond mewn cyd-destun newydd. Mr Bean sydd, yn yr achos hwn, wedi colli ei ddawn i wneud i bobol chwerthin nes fod datrysiaid i'w broblem ar ôl cael gafael ar lwch hud. Dyma ddechrau gweld unwaith yn rhagor y 'sgaffaldiau iaith' sydd wedi'u mewnloli ar lafar- y patrymau iaith cywir, y cysyllteiriau, ymadroddion, ieithwedd stori a.y.yb. wedi'w trosglwyddo'n sylfaen gref i'r gwaith ysgrifenedig.

Dysgwyr pur yw awduron y ddwy sribed stori yma ar eu hwythfed wythnos o gwrs iaith mewn canolfan i hwyrdyffodiaid. Dysgwyr neu beidio, trwy ddysgu straeon yn drwyadl ar lafar a chychwyn ar y broses o storio iaith gyfoethog ddefnyddio'r plot a'r achos hwn, gwelir y cam naturiol sy'n digwydd nesaf a'r iaith yna'n ei thro yn cael ei throsglwyddo'n ysgrifenedig. Dyna pam y cytunaf i'r carn pan ddywed Pie Corbett ei fod yn talu ar ei ganfed i gael plentyn i ddysgu ac adrodd stori ar lafar.

Handwritten student work for 'Pie Corbett's Story'. It consists of two rows of three boxes each. Each box contains a drawing and some text. The drawings include a person, a car, a person on a beach, a sad face, a person on a swing, and a person on a horse. The text is in Welsh and appears to be a retelling of the story. At the bottom, there is a note: 'Rydur i'w hysbys i chi yma'n fawr rannu. Awdurdod!'.

Handwritten student work for 'Pie Corbett's Story'. It consists of two rows of three boxes each. Each box contains a drawing and some text. The drawings include a dragon, a person, a person on a horse, a person on a horse, a person on a horse, and a person on a horse. The text is in Welsh and appears to be a retelling of the story. At the bottom, there is a note: 'Banddyddig! Rydus i'w hysbys i chi o'r gwaith yma.'